

Gweddïau Brenhinol: Cyfeiriadau at y Brenin Charles yn Litwrgïau'r Eglwys yng Nghymru

Nodyn esboniadol

Yn dilyn marwolaeth y Frenhines Elizabeth II mae'n rhaid gwneud newidiadau penodol i rai gweddïau brenhinol yn litwrgïau'r Eglwys yng Nghymru. Felly mae Mainc yr Esgobion yn cymeradwyo'r ffurfiau diwygiedig a restrir isod.

O ran y cyfieithiadau Cymraeg dylid nodi bod y Brenin wedi nodi ei ddymuniad i arfer 'Charles' yn hytrach na 'Siarl' ac felly dyna'r ffurf a arferir isod.

A Y LLYFR GWEDDI GYFFREDIN (1984)

I. TREFN GWASANAETH Y CYMUN BENDIGAID A ELWIR HEFYD YR OFFEREN

(Mae'r cyfeiriadau yn nodi rhif y tudalennau yn y gyfrol sy'n dwyn y teitl 'Y Cymun Bendigaid / The Holy Eucharist')

Yr Ymbiliad (ail ffurf, tudalen 10)

Erfyniwn arnat, O Arglwydd, gyfarwyddo â'th ddoethineb nefol y rhai hynny sy'n llywodraethu cenhedloedd y byd fel y llywodraethir dy bobl yn ffyddlon ac yn uniawn; bendithia dy was *Charles ein Brenin*, a phob un sy'n dwyn awdurdod dano.

II. Y FOREOL A'R HWYROL WEDDI

(Mae'r cyfeiriadau yn nodi rhif y tudalennau yn y gyfrol sy'n dwyn y teitl 'Y Foreol a'r Hwyrdd Weddi / Morning and Evening Prayer')

1. Gwersiglau ac Atebion yn y Foreol a'r Hwyrdd Weddi (tudalennau 399 a 408)

Arglwydd, cadw'r *Brenin*;

A rho i'w gynghorwyr ddoethineb.

2. Y Litani (Atodiad V, Adran II(b), tudalen 424)

Deisyfwn arnat ein gwrando, O Arglwydd Dduw; ac ar i ti gadw a nerthu dy was *Charles ein Brenin* i'th wasanaethu mewn iawnder a glendid buchedd.

Deisyfwn arnat ein gwrando, Arglwydd daionus.

3. Ymbiliau: Ymbiliad Cyffredinol (tudalen 430)

Erfyniwn arnat arwain a chyfarwyddo'r rhai oll sy'n llywodraethu cenhedloedd y byd, yn enwedig ein Goruchel *Arglwydd, y Brenin Charles*, a'r rhai a osodir mewn awdurdod arnom, fel y llywodraethir ni a phob dyn yn gyfiawn ac yn heddychol.

(Arglwydd yn dy drugaredd,
Gwranddo ein gweddi.)

4. Ymbiliau: y Wladwriaeth (tudalen 434)

13 DROS Y BRENIN A PHAWB MEWN AWDURDOD

Hollalluog Dduw, ffynnon pob daioni, deisyfwn yn ostyngedig arnat fendithio ein Goruchel *Arglwydd, y Brenin Charles*, a phawb sydd wedi eu gosod mewn awdurdod *dano*, iddynt drefnu pob peth mewn doethineb, cyfiawnder a heddwch, er anrhydedd i'th Enw sanctaidd a lles dy Eglwys a'th bobl; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

5. Ymbiliau: y Wladwriaeth (tudalen 435)

14 DROS Y BRENIN A'R TEULU BRENHINOL

Hollalluog Dduw, ffynnon pob daioni, deisyfwn yn ostyngedig arnat fendithio ein Goruchel *Arglwydd, y Brenin Charles, y Frenhines Camilla, Tywysog a Thywysoges Cymru*, a'r holl Deulu Brenhinol; cynysgaedda hwy â'th Ysbryd Glân, cyfoethoga hwy â'th nefol ras, llwydda hwy â phob dedwyddwch, a dwg hwy i'th deyrnas dragwyddol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

B TREFN AR GYFER Y CYMUN BENDIGAID (2004)

1. Atodiad iii: Ffuriau eraill a awgrymir ar gyfer yr Ymbiliau (Ffurf 1, tudalen 101)

Dros *Charles ein Brenin*, dros arweinwyr y cenhedloedd a thros bawb sydd mewn awdurdod, gweddiwn ar yr Arglwydd:
Arglwydd, trugarha.

2. Atodiad iii: Ffuriau eraill a awgrymir ar gyfer yr Ymbiliau (Ffurf 2, tudalen 105)

Bendithia ac arwain *Charles ein Brenin*; dyro ddoethineb i bawb mewn awdurdod; a chyfarwydda'r genedl hon a phob cenedl arall yn ffyrdd cyfiawnder a heddwch ... Boed inni anrhydeddu ein gilydd a cheisio lles pawb.

C GWEDDI DDYDDIOL (2009)

1. Cylch Ymbiliau (tudalen 218)

Dydd Gwener

Y Brenin

Aelodau Seneddol San Steffan ac Aelodau Senedd Cymru

Y lluoedd arfog

Heddwch a chyfiawnder

Y rhai sy'n gweithio dros gymod

Y rhai sy'n dioddef oherwydd rhyfel neu anghydfod sifil

Carcharorion, ffoaduriaid a phobl ddigartref

2. Litanïau byrion (1, tudalen 222)

Arglwydd, dyro ras i'r *Brenin*:

a thywys ei gynghorwyr mewn doethineb.

3. Litanïau byrion (6, tudalen 226)

Dros y gymuned hon, ein cenedl a'i llywodraeth a'r *Brenin*; dros bawb sy'n gweithio o blaid cyfiawnder, rhyddid a heddwch ...

4. Litanïau byrion (9, tudalen 230)

Gweddiwn dros *Charles ein Brenin*, a thros bawb sy'n gyfrifol am lywodraethu'r genedl hon a phob cenedl arall, fel y gall dy bobl lawenhau yn dy roddion o wir gyfiawnder a thangnefedd ...

5. Y Litani (adran II(b), tudalen 240)

Cadw a nertha dy *was Charles ein Brenin*,

fel y bo *iddo* ymddiried ynot

a cheisio dy anrhydedd a'th ogoniant.

Gwranddo ni, Arglwydd daionus.

D AMSERAU A THYMHORAU (RHAN TRI) (2021)

Adran 3.3.3 Y Cofio Ffurfiâu ar y Fendith

Rhodded Duw ei ras i'r byw
a gorffwys i'r ymadawedig;
i'r Eglwys, y *Brenin*,
y Gymanwlad, a'r holl ddynoliaeth
rhodded hedd a chytgord;
ac i ni a'i holl weision, fywyd tragwyddol,
a bendith.....

Nodyn:

Dan delerau'r Bil i Awdurdodi a Rheoleiddio Mân Amrywiadau i Litwrgïau Awdurdodedig (2022), mae'r Fainc wedi nodi ei bod hi'n dderbyniol i gyfeirio at Ei Fawrhydi fel "Charles, y Brenin" yn lle "Charles, ein Brenin" pan yr ystyrir bod hynny'n briodol.